Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Llongyfarchiadau..

# CLWB PÊL-DROED ALBION TONYPANDY



12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 1

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# CLWB PÊL-DROED ALBION TONYPANDY

Am y tro cyntaf ers i'r clwb gael ei sefydlu 59 mlynedd yn ôl, mae Clwb Pêl-droed Albion Tonypandy wedi sefydlu tîm pêl-droed sylfaenol i blant . Ar ôl llawer o waith caled fe wnaethon nhw sefydlu tîm dan 10/11 oed, sydd bellach â 21 o chwaraewyr cofrestredig a 19 o gyfranogwyr rheolaidd. Mae'r clwb yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn gallu cynnig lle diogel a chefnogol i'r chwaraewyr gan ddatblygu eu sgiliau pêl-droed a rhoi cyfle iddyn nhw feithrin hyder a hunan-barch yng nghwmni ffrindiau oes. Oddi ar y cae mae'r tîm wedi dod â theuluoedd at ei gilydd ac wedi creu ymdeimlad o falchder yn y gymuned leol.

Yn dilyn y llwyddiant yma, mae'r clwb eisoes wedi sefydlu tîm newydd ar gyfer plant dan 6 oed ac maen nhw'n gobeithio parhau i sefydlu a datblygu rhagor o dimau i blant dros y tymhorau nesaf. Maen nhw'n gobeithio cynnig cyfleoedd chwarae llawn hwyl i ragor o bobl ifainc yn eu cymuned leol.